

Ar ddydd Mawrth, 13eg Mai 2008 cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cyngor Cymuned Trefeurig yn Neuadd y Penrhyn. Hysbysebwyd Fforwm Agored ar gyfer 7.00 pm ond ni ddaeth unrhyw Aelodau o'r Cyhoedd yno a dechreuodd Cyfarfod y Cyngor am 7.15 pm

**PRESENNOL:** Y Cyng. K Walker (Cadeirydd); Mrs G Price; Mrs E Davies; Msri DR Morgan; DM Hughes; D Jones; R Owen; T Lewis; Trefor Davies a'r clerc. Roedd y Cynghorydd Sir, D Suter hefyd yn bresennol.

Croesawodd y Cyng. Walker bawb i gyfarfod cyntaf y Cyngor yn dilyn etholiad diwrthwynebiad y Cyngor Cymuned, yn arbennig yr aelod newydd, Trefor Davies, a llongyfarchodd D Suter ar gael ei ailethol fel Cynghorydd Sir ar gyfer Trefeurig.

- 2369 Datganiad Derbyn Swydd: Rhoddwyd copi o'r Cod Ymddygiad i bob aelod ac arwyddodd bob un oedd yn bresennol Ddatganiad Derbyn Swydd gan ymgymryd i gadw at y Cod Ymddygiad, a'i ddychwelyd i'r clerc
- 2370 Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth yr ail aelod newydd, Mr David Shepherd, a gan y Cyng. Melvyn Evans.
- 2371 Materion Personol: Dymunai'r Cyngor gofnodi ei werthfawrogiad o'r blynyddoedd lawer o wasanaeth i'r gymuned a roddodd y ddau aelod a ddewisodd beidio ag ail-sefyll yr etholiad yn ddiweddar, sef Mr Daniel Huws a Mr Merfyn Hughes. Bydd eu gwybodaeth leol, eu harbenigedd a'u cof am ddigwyddiadau'r gorffennol yn golled fawr.
- 2372 Cofnodion CCB 2007: Dosbarthwyd copïau o Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol Mai 2007 ymlaen llaw. Cadarnhawyd y rhain yng nghyfarfod Mehefin 2007.
- 2373 Adroddiad y Cadeirydd 2008:
- Croesawyd y ffaith bod Cam 1 o'r cynllun Llwybr Diogel i'r Ysgol trwy gae chwarae Penrhyn-coch wedi'i gwblhau a gobeithir y bydd Ceredigion yn darparu goleuadau ar hyd y llwybr. Rhaid aros i weld a fydd y llwybr yn gwneud y tro yn lle llwybr troed rhwng mynedfa'r Clwb Pêl-droed â Ceirios
- Mae Gweithgor Neuadd y Penrhyn yn gwneud cynnydd graddol i wireddu dymuniadau'r Gymuned mewn perthynas â dyfodol y Neuadd ac, yn Nhrefeurig, mae'r Grŵp Datblygu'n gweithio'n galed i droi adeilad yr hen ysgol yn Ganolfan Gymunedol ymarferol. Mae yna gynrychiolaeth o'r Cyngor ar y ddau bwyllgor hyn.
- Cwblhawyd y gwaith o adfer simnai Cwmsymlog yn y diwedd yn 2008 a gosodwyd y tri bwrdd gwybodaeth a'r arwydd ffordd newydd yn eu lle. Rydym yn ddiolchgar iawn i Cadw a Cheredigion am ariannu'r prosiectau hyn ac i Daniel Huws am ei ddiddordeb a'i ran yn y cynllun
- Yn anffodus mae sbwriel a baw cŵn yn parhau i fod yn broblem ym Mhenrhyn-coch. Rydym yn gobeithio y bydd darparu biniau baw cŵn yn y Cae Chwarae yn helpu. Gall sesiynau tacluso cymunedol fod yn un ffordd o wella'r sefyllfa. Mae'n siom nad yw'r ymdrechion i sefydlu

gwefan ar gyfer y Cyngor gyda chymorth Menter Aberystwyth wedi dwyn ffrwyth hyd yn hyn, ond mae gwefan Gymunedol Trefeurig wedi'i sefydlu erbyn hyn a gwahoddwyd y Cyngor i gyfrannu eitemau ar gyfer y wefan honno am y tro.

Mae Ceredigion wrthi'n paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer 2007-2022 ac mae'n hanfodol ein bod yn cymryd rhan weithredol yn y penderfyniadau fydd yn dylanwadu ar ddefnydd o'r tir o fewn ein cymuned yn y dyfodol.

Bu fy mlwyddyn fel Cadeirydd yn un ddiddorol ac addysgiadol. Rwy'n gobeithio y bydd y Cyngor yn parhau i gwrdd ym Mhenrhyncoch a Threfeurig bob yn ail a'n bod yn parhau i fod yn ddwyieithog ac yn anwleidyddol ac mai lles y gymuned fydd canolbwynt ein holl benderfyniadau. Diolch i'r aelodau a'r clerics am eu cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn.

2374 Ethol Cadeirydd 2008/2009:

Gwahoddwyd y Cyng. Richard Owen i fod yn Gadeirydd ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod a derbyniodd y gwahoddiad. Arwyddodd y Datganiad Derbyn Swydd a chymerodd y Gadair.

2375 Ethol Is-gadeirydd:

Yn ei absenoldeb, cynigiwyd ac eiliwyd y Cyng. Melvyn Evans fel Is-gadeirydd. Ni enwebwyd unrhyw un arall.

2376 Ethol Cynrychiolwyr Pwyllgorau:

Neuadd y Penrhyn : Cyng. G Price – Pwyllgor y Neuadd

Cyng. K Walker - Gweithgor

PATRASA: Cyng. G Price

Cae Chwarae Penbontrhydybeddau : Cyng. Trefor Davies

Hen Ysgol Trefeurig: Cyng. R Owen

Cartref Tregerddan : Cyng. G Price & D R Morgan

Un Llais Cymru: Cyng R Owen & K Walker

Rhosserchan: Cyng. D Jones

Adroddiadau'r Wasg: Y Tincer a'r Cambrian News: Cyng. R Owen

#### CYFARFOD BUSNES 13.05.08

2377 Datgan Diddordeb Personol: Datganodd y Cyng. K Walker ddiddordeb personol yng Nghofnod 2385 a'r Cyng. T Davies yng Nghofnod 2396

2378 Cadarnhau Cofnodion: PENDERFYNWYD cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 15fed Ebrill 2008. Trafodwyd y materion canlynol oedd yn codi o'r Cofnodion:

Cofnod 2349 - Carreg Coffa Dafydd ap Gwilym: Derbyniwyd cais am fanylion pellach gan yr Academi Gymreig. Anfonwyd ateb.

Cofnod 2352 – Dogfen ddrafft Tân ac Achub: Rhoddodd y Cyng. D M Hughes adroddiad ar ei chynnwys. PENDERFYNWYD peidio ag anfon ymateb.

Cofnod 2352 – Dogfen ddrafft ymgynghorol – Tai Ceredigion: Ymddiheurodd y Cyng. R Owen nad oedd wedi cael amser i ystyried y ddogfen.

Cofnod 2358 – Gwefan Gymunedol Trefeurig: Adroddodd y Cyng. R Owen y bydd hon yn cael ei lansio'n swyddogol ar 15fed Mai. Gwahoddwyd pawb i fynychu.

Cofnod 2367 – Cais Cynllunio A080277: Sied offer -Banc Llety Spence, Cwmerfyn: Mae trigolion Cwmerfyn wedi gofyn i'r Cyngor nodi nad yw maint/nifer acer i'r daliad yn ddigonol ar gyfer gosod sied offer fawr arall yn eu barn nhw. PENDERFYNWYD anfon y sylwadau ymlaen i'r Adran Gynllunio

Cofnod 2369 – Mannau pasio, ffordd Salem: Cadarnhaodd yr adran Briffyrdd fod yr eitem hon ar eu hamserlen waith.

2379 Adroddiadau Cyfarfodydd a fynychwyd gan Aelodau'n cynrychioli'r Cyngor Cymuned:

Cyfarfod Ardal Un Llais Cymru, Ebrill 2008: gohiriwyd

Grŵp Datblygu Ysgol Trefeurig: Methodd y Cyng. R Owen fynychu'r cyfarfod

PATRASA: Adroddodd y Cyng. Price fod paratodau ar y gweill ar gyfer 'Sesiwn Dacluso' a digwyddiadau amrywiol i godi arian

Derbyniwyd ac ystyriwyd y dogfennau/ohebiaeth ganlynol:

2380 Cod Ymddygiad Newydd: Cyfarwyddiadau gan GS Ceredigion ynghylch (i) mabwysiadu'r Cod Ymddygiad Newydd; (ii) Cyhoeddi hysbysiad yn datgan bod y Cyngor wedi mabwysiadu'r Cod newydd (iii) sicrhau ei fod ar gael i'w archwilio gan aelodau'r cyhoedd a (iv) Hysbysu Ombwdsman Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru pan fydd hyn wedi cymryd lle.

Sesiynau hyfforddi ar gyfer Cynghorwyr a Chlercod Cymunedol: Hysbysiad bod hyfforddiant wedi'i drefnu ym Mhenmorfa ym mis Mehefin ar gyfer y clerc a dau gynghorydd. PENDERFYNWYD y dylai'r clerc a'r ddau gynghorydd newydd fynychu hwn.

2381 Llywodraeth Leol Cymru : Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008. PENDERFYNWYD nodi a ffeilio Offerynnau Statudol Cymru 2008 Rhif 788 (W.82) sy'n diddymu ac yn disodli Gorchymyn 2001.

2382 Hen Ysgol Trefeurig: Dosbarthwyd copiâu o ohebiaeth rhwng Pwyllgor y Grŵp Datblygu a CS Ceredigion yn dilyn penderfyniad unochrog Ceredigion i osod Tŷ'r Ysgol ar werth. PENDERFYNWYD cefnogi gwrthwynebiad y Grŵp Datblygu i'r weithred hon.

- 2383 Cyfarfod Cyfeillion Rhoserchan 16 Mai: Fel cynrychiolydd enwebedig y Cyngor cytunodd y Cyng. D Jones i fynychu'r cyfarfod.
- 2384 Drafft o Gynllun Gwella Hawliau Tramwy: PENDERFYNWYD ei basio i'r Cyng. T Davies ei ddarllen ac adrodd yn ôl arno yng nghyfarfod mis Mehefin
- 2385 Un Llais Cymru: (i) Cynhadledd Flynyddol 2008: Cynhelir hon ym Mhafiliwn Bont: PENDERFYNWYD ei thrafod yn y cyfarfod nesaf
- (ii) Enwebiadau ar gyfer Garddwest Palas Buckingham 15.07.08: Hysbysiad bod cais Trefeurig wedi bod yn llwyddiannus a bydd y Cyng. K Walker (fel Cadeirydd 2007/08) a'i phartner yn cynrychioli'r Cyngor yng Ngarddwest 2008.
- Cadarnhaodd Un Llais Cymru fod hon yn ddyletswydd gymeradwy a gall y Cyng. Walker adhawlio unrhyw gostau rhesymol sy'n codi ar ei rhan hi.
- (Gadawodd y Cyng. Walker y cyfarfod ac ni chymerodd ran yn y drafodaeth hon)

#### Materion Ariannol

- 2386 HSBC Cyfrif Cymunedol Balans 13.04.08: £1,000.26
- 2387 Archebiant 2008/09: Derbyniwyd taliad gan Geredigion 25.04.08: £11,000
- 2388 Archwilio Cyfrifon 2007/08:
- Rhodddwyd copi o'r Datganiad Ariannol ar gyfer y flwyddyn, ynghyd â'r holl ddogfennau oedd yn gysylltiedig â'r archwiliad blynyddol gerbron holl aelodau'r Cyngor i'w harchwilio. PENDERFYNWYD derbyn y cyfrifon fel y'u cyflwynwyd. Cymeradwywyd Adran 1 o'r Ffurflen Flynyddol - Datganiad Cyfrifon; ac Adran 2 - Y Datganiad Llywodraethu Blynyddol gan y Cyngor ac fe'u harwyddwyd gan y Cadeirydd a'r Clerc/SAC. Bydd yr holl ddogfennau'n mynd at yr Archwiliwr Mewnol ar gyfer ei adroddiad.
- Gosodir hysbysiad am yr Archwiliad Blynyddol ar yr hysbysfyrdau lleol o 16/06/08 i 29/06/08 a bydd y cofnodion ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd rhwng 30/06/08 a 25/07/08.
- Anfonir yr holl ddogfennau angenrheidiol i'r archwilwyr allanol erbyn 01/08/08 gan gynnwys yr Holiadur Archwiliad Rhyngol a dderbyniwyd trwy e-bost 08/05/08.
- 2389 Adolygu'r Polisi Yswiriant ar gyfer 2008/09 gan Allianz Insurance PLC
- Cyflwynwyd copïau o'r polisi yswiriant presennol a'r manylion ar gyfer y flwyddyn yn dechrau 01 Mehefin 2008 i'r Cyngor. Trafodwyd yr yswiriant dan bob pennawd. PENDERFYNWYD derbyn gwahoddiad Allianz Insurance i adnewyddu'r yswiriant ar y lefelau a gynigiwyd, am bremiwm o £852.39 a gofyn am ddyfynbris ychwanegol ar gyfer yswirio eitemau a brynwyd yn ddiweddar, sef:

3 Byrddau Dehongli – gwerth £1000 yr un £3,000	-	
2 Meinciau Iroko – gwerth £511 yr un £1,022	-	
2 sedd o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu – gwerth £360 yr un - 720		£
2 Fin Baw Cŵn - gwerth £250 yr un 500	-	£

Rhodddwyd ystyriaeth fanwl i'r Tâl Ffyddlondeb sy'n £15,000 y flwyddyn, ac a ystyriwyd yn rhy isel yn Adroddiad Archwiliad Allanol 2006/07. PENDERFYNWYD ei adael fel y mae. Mae'n ddigon uchel i gwrdd ag archebiant 2008/09 sef £11,000 a'r balans a gariwyd drosodd, ac ni fydd unrhyw arian grant pellach yn cael ei dderbyn.

Cytunwyd i dalu'r anfonebau canlynol:

- 2390 L Griffiths – cyfieithu Ebrill 2008: £48.10 siec 855
- 2391 Earth Anchors – 4 o feinciau £1790 + TAW £313.25 - £2103.25 siec 856
- 2392 Viking Direct – cyflenwadau swyddfa - £71.65 + TAW £12.54 - £84.19 siec 857
- 2393 Allianz Insurance plc –Premiwm blynyddol o 01/06/08 - £852.39 siec 858
- 2394 Crosswood Computers Aberystwyth ynghylch Cyfrifiadur y Cyngor: Derbyniwyd amcanbris i drwsio ac adnewyddu cyfrifiadur y cyngor a chyflenwi meddalwedd gwarchod – tua £50. PENDERFYNWYD awdurdodi'r gwaith hwn. Y clerch i gael dau lofnod ar siec pan gaiff ei gwblhau.
- 2395 Nodwyd y penderfyniadau cynllunio canlynol:
  - A071091 IGER - Adeilad amaeth newydd ac adnewyddu'r rhai presennol - rhoddwyd caniatâd
  - A080197 45 Dolhelyg, Penrhyncoch – estyniad – rhoddwyd caniatad

Ystyriwyd y Ceisiadau Cynllunio canlynol:

- 2396 A080374 Gosod ceblau tanddaearol rhwng Campws Penglais a Champws IGER
  - Dim gwrthwynebiad.
  - (Fel aelod o staff IGER gadawodd y Cyng. T Davies y cyfarfod ac ni chymerodd unrhyw ran yn y drafodaeth hon)
- 2397 A080377 Plas y Coed, Cwmerfyn – estyniad. Dim gwrthwynebiad
- 2398 Cynhelir Cyfarfod nesaf y Cyngor ar ddydd Mawrth, 17 Mehefin 08 yn Ysgol Trefeurig am 7.00 pm
- 2399 Cytunwyd i gynnwys yr eitemau canlynol ar yr agenda nesaf:
  - Problemau carthffosiaeth yng Nghefnllwyd a Phenbontrhydybeddau

Amledd y gwasanaeth tacsï-bws i Benbontrhydybeddau  
Torri'r glaswellt hyd ymyl y ffyrdd – gwarchod clychau'r gog  
Arwydd 30mya heb ei gasglu ger Clwb Pêl-droed Penrhyncoch  
Sbwriel ym Mhenrhyncoch

Daeth y Cyfarfod i ben am 9.50 pm.